Crynodeb o Bolisïau a Phrosesau yn ymwneud ag

Ymddygiad Gwrth Gymdeithasol

Rydym yn awyddus i chi allu profi mwynhad distaw yn eich cartrefi ac i deimlo'n ddiogel o fewn eich cymunedau.

Mae Cymdeithas Tai Eryri yn ymrwymo i ddatrys ymddygiad gwrth gymdeithasol (YGG) ac aflonyddu yn y cymunedau lle rydym yn byw a gweithio. Rydym yn ymwybodol iawn o effeithiau andwyol YGG ar fywydau pobl ac ar ddirywiad cymunedol.

Byddwn yn cymryd camau cadarnhaol ac addas i ddelio ag YGG, gan ddefnyddio pob arf sydd ar gael i wneud hynny, boed y rhai sy'n gyfrifol yn byw yn ein cymunedau neu'n ymweld â hwy.

Beth yw ymddygiad gwrth gymdeithasol?

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn diffinio ymddygiad gwrth gymdeithasol fel ymddygiad sydd yn "gallu achosi niwsans neu boendod i unrhyw berson; ac/neu sydd yn cynnwys defnyddio, neu fygwth defnyddio llety sy'n berchen neu a reolir gan landlord perthnasol ar gyfer pwrpas anghyfreithlon " (Deddf Ymddygiad Gwrth Gymdeithasol, 2003)

Mae Cymdeithas Tai Eryri o'r farn bod YGG yn gallu cynnwys:

- Niwsans sŵn
- Aflonyddu neu ddychryn
- Ymddygiad gwahaniaethol sydd yn targedu aelodau o grwpiau penodol oherwydd gwahaniaethau tybiedig (gan gynnwys hil, tueddiadau rhywiol, rhyw, oed, crefydd ac anabledd)
- Ymddygiad neu iaith fygythiol ac ymosodol
- Trais yn erbyn pobl ac eiddo
- YGG yn deillio o gamddefnydd sylweddau
- Defnydd o eiddo ar gyfer pwrpas anghyfreithlon, gan gynnwys cyflenwi cyffuriau

Wrth i ni dderbyn cwyn niwsans am unrhyw un, byddwn yn asesu effaith eu hymddygiad ar bobl eraill a'r gymuned yn ei chyfanrwydd er mwyn gallu penderfynu a yw'n wrth gymdeithasol.

Sut y byddwn yn delio ag ymddygiad gwrth gymdeithasol

Byddwn yn delio yn gadarnhaol gyda digwyddiadau fel hyn ac yn ymateb yn syth pan dderbynnir cwyn. Mae'n fwriad gennym hefyd i atal YGG ac i gynnig cefnogaeth i ddioddefwyr ac i drigolion bregus.

Rydym yn anelu i wneud hynny drwy:

- Sicrhau bod ein tenantiaid i gyd yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau fel y rhestrir hwy yn y Cytundeb Tenantiaeth
- Gweithredu yn sydyn ac yn briodol pan dderbynnir cwynion, gan sicrhau ymchwilio yn drwyadl ac yn effeithiol, gan ystyried pob ateb sydd ar gael
- Gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau perthnasol eraill fel yr Heddlu, unedau YGG awdurdodau lleol, Y Gwasanaethau Cymdeithasol a Chefnogaeth i Ddioddefwyr, er mwyn gweithredu yn erbyn YGG a darparu cefnogaeth i denantiaid sy'n dioddef.

Fel tenant i Gymdeithas Tai Eryri, beth yw fy hawliau a'm cyfrifoldebau?

Mae gan bob tenant yr hawl i 'fwynhad distaw' yn eu cartrefi a'r hawl i fynd o gwmpas eu pethau heb ymyrraeth

Mae gan bod tenant gyfrifoldeb i ymddwyn yn rhesymol tuag at unrhyw un sydd yn byw, yn ymweld neu'n gweithio yn eu cymuned, ac i beidio ymyrryd gyda 'mwynhad distaw' pobl eraill

Mae pob tenant yn gyfrifol am ymddygiad unrhyw un sydd yn byw gyda hwy neu'n ymweld â hwy, fel y mae'r Cytundeb Tenantiaeth yn ddatgan.

Sut allaf i adrodd am ymddygiad gwrth gymdeithasol?

Cysylltwch ag aelod o'r Tîm Tenantiaeth drwy:

- Ffonio 01286 881588 (Gwynedd) neu 01248 750359 (Ynys Môn)
- Ysgrifennu at neu alw heibio un o'n swyddfeydd, sef Tŷ Silyn, Y Sgwâr, Penygroes, Gwynedd, LL54 6LY neu 33-35 Stryd Fawr, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7NA
- Anfon e-bost atom i enw@taieryri.co.uk

Mewn ARGYFWNG, peidiwch ag oedi – ffoniwch yr heddlu 999!

Sut fydd y Gymdeithas yn delio efo'm cwyn?

Bydd Cymdeithas Tai Eryri yn delio efo pob adroddiad – gan gynnwys rhai dienw – o ddifrif ac yn hollol gyfrinachol. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, bydd raid i chi ddatgan eich enw er mwyn i ni allu gweithredu.

Bydd un o'n Swyddogion Stadau yn delio gyda'ch cwyn, yn benodol y swyddog sydd yn gyfrifol am yr ardal lle mae'r YGG wedi digwydd.

Bydd y Swyddog Stadau wedyn yn trafod y canlynol gyda chi:

- Natur y gwyn
- Y camau gweithredu mwyaf effeithiol i'w cymryd
- Y gefnogaeth allwn ni ei gynnig i chi

Bydd y Swyddog Stadau yn ymchwilio'n fanwl i'ch cwyn a bydd yn cysylltu â phawb sydd yn berthnasol cyn penderfynu ar y gweithredu mwyaf priodol i ddatrys y mater

Bydd y Swyddog Stadau yn gadael i chi wybod beth sydd yn digwydd efo'ch cwyn a beth yw canlyniad ei (h)ymchwiliadau.

Ddylwn i gysylltu efo'r person sy' ymddwyn yn wrth gymdeithasol?

Os ydych yn teimlo'n gyfforddus i gysylltu efo'r person sydd yn gyfrifol am y niwsans, gallwch wneud hynny.

Os ydych yn boenus am sut i ddelio â'r person yma, rhowch ganiad i'r Swyddog Stadau er mwyn cael sgwrs am y ffordd orau i symud ymlaen.

Pa gamau fydd y Gymdeithas yn eu cymryd?

Yn y rhan fwyaf o achosion, byddwn yn cyfweld y person yr honnir ei fod yn achosi'r niwsans a gofyn iddynt wella neu newid eu hymddygiad. Byddwn yn egluro iddynt pa gamau allwn ni eu cymryd os ydynt yn parhau i dorri amodau eu tenantiaeth.

Mewn achosion difrifol iawn, lle mae peryg o niwed, byddwn yn cymryd camau cyfreithiol yn syth o atal unrhyw ddigwyddiadau pellach.

Pa dystiolaeth sydd ei angen?

Nid oes angen tystiolaeth ysgrifenedig/lluniau i ymchwilio i gwyn ar y cychwyn ond ni allwn gymryd camau cyfreithiol heb dystiolaeth.

Mae'n bosib y byddwn yn gofyn i chi gofnodi digwyddiadau ar ffurf 'dyddiaduron niwsans' – bydd y rhain yn cael eu trin yn hollol gyfrinachol

Mewn achosion mwy difrifol, mae posib y byddai angen i chi roi datganiadau tyst a mynychu gwrandawiad llys. Os digwydd hynny, byddwn yn darparu cefnogaeth i chi.

Gallwn hefyd ystyried defnyddio asiantaethau eraill i gasglu tystiolaeth lle bo hynny'n addas.

Beth os nad ydwyf yn fodlon efo'r ffordd y deliwyd â'm cwyn?

Rydym yn delio efo pob cwyn yn gytbwys ac yn gyfrinachol. Fodd bynnag os nad ydych yn fodlon efo'r modd y bu i ni ddelio â'ch cwyn, gallwch drafod y mater yn anffurfiol efo'r Rheolwr Tenantiaethau. Os ydych yn parhau i fod yn anfodlon, gallwch ddefnyddio ein Proses Cwynion swyddogol.

Mae taflen ar gael yn rhoi manylion llawn ein Proses Cwynion a darperir copi o'r daflen i bob tenant newydd yn eu pecyn tenantiaeth. Mae hefyd ar gael yn nerbynfeydd y ddwy swyddfa ac ar ein gwefan ar www.taieryri.co.uk

Alla i ofyn am gopi llawn o bolisïau a phrosesau'r Gymdeithas sydd yn ymwneud ag Ymddygiad Gwrth Gymdeithasol?

Mae'r dogfennau llawn ar gael i'w darllen yn y ddwy swyddfa, neu gallwch ein ffonio ar 01286 881588 ac fe ofalwn ein bod yn eu postio i chi.